Welsh Parliament
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Gwrandawiad cyn penodi – Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Chwefror 2026

## 1. Cyflwyniad

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**1.** Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Hydref 2009 ac fe gafodd statws 'Prifysgol' ym mis Rhagfyr 2013. Prif rôl y Bwrdd Iechyd yw "sicrhau bod y system GIG leol yn cael ei chynllunio a'i chyflenwi'n effeithiol, o fewn fframwaith llywodraethiant cadarn, i gyflawni'r safonau uchaf o ran diogelwch cleifion a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n dinasyddion mewn modd sy'n hyrwyddo hawliau dynol."

**2.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwasanaethu poblogaeth Gwent, sy'n adlewyrchu'r pum ardal awdurdod lleol: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae demograffeg Gwent yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd gwledig, canolfannau trefol a chymoedd mwyaf dwyreiniol de Cymru.

**3.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi 13,424 o staff cyfwerth ag amser cyflawn, sy'n gyfystyr ag 17,011 o staff, a dyma'r cyflogwr mwyaf yng Ngwent. Yn ôl y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, mae'r gweithlu yn heneiddio, ac felly hefyd proffil demograffig y boblogaeth, ac mae anghydraddoldebau iechyd y boblogaeth i'w gweld yng ngweithlu'r Bwrdd Iechyd hefyd. Mae 80% o'r staff yn byw yn y cymunedau y mae'r bwrdd yn eu gwasanaethu. Felly, mae'n hanfodol bod iechyd

a llesiant staff yn flaenoriaeth allweddol ac yn nodwedd o gynlluniau ataliol y Bwrdd Iechyd.

**4.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael cyllideb flynyddol o ychydig o dan £1.6 biliwn gan Lywodraeth Cymru, i'w defnyddio i gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer poblogaeth Gwent. Yn ogystal â darparu gwasanaethau'n lleol, mae'r pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr yn nodi bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth i geisio gwella iechyd a llesiant yn yr ardal, yn benodol drwy drefniadau partneriaeth i ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**5.** Agorodd Ysbyty Athrofaol y Faenor yng Nghwmbrân ym mis Tachwedd 2020 ac mae'n darparu gofal critigol ac arbenigol i drigolion Gwent a De Powys. Mae tri uwch Ysbyty Cyffredinol Lleol yn parhau i ddarparu ystod o wasanaethau i gleifion mewnol ac i gleifion allanol, sef:

- Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd;
- Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach; ac
- Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni.

**6.** Ceir hefyd ystod o ysbytai a chyfleusterau eraill ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

# 2. Y broses o gynnal gwrandawiad cyn penodi

## Y broses

**7.** Cytunodd Llywodraeth Cymru a'r Senedd i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd, neu benodiadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach y gwaith o graffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus, yn ogystal â thryloywder y broses honno.

**8.** Yn gyffredinol, mae gwaith craffu cyn penodi yn digwydd ar ffurf gwrandawiad cyhoeddus cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru. Yn achos penodiadau i'r rolau hyn y cytunwyd arnynt, y pwyllgor perthnasol sy'n penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawiad cyn penodi.

## Gwrandawiad cyn penodi

**9.** Ar 13 Chwefror 2026, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod Andrew Morgan wedi'i ddewis fel yr ymgeisydd a ffefrir gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer rôl Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn amodol ar wrandawiad cyn penodi gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol[1].

**10.** Cynhaliwyd y gwrandawiad cyn penodi ar 26 Chwefror 2026. Mae trawsgrifiad y cyfarfod ar gael ar wefan y Pwyllgor.

**11.** I helpu i lywio'r gwrandawiad, rhoddodd Llywodraeth Cymru bapur briffio i ni ar y broses recriwtio ("papur briffio gan Lywodraeth Cymru") a chopi o'r pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr. Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor i'r ymgeisydd a ffefrir lenwi holiadur cyn y gwrandawiad.

# 3. Y broses recriwtio

**12.** Cafodd y swydd ei hysbysebu ar wefan Llywodraeth Cymru a gwefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ac mewn hysbysebion y talwyd amdanynt rhwng 27 Hydref a 21 Tachwedd 2025.

**13.** Daeth naw o geisiadau i law. Argymhellwyd pedwar ymgeisydd i gael eu cyfweld. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar 21 Ionawr 2026. Roedd y Panel Cynghori ar Asesu o'r farn bod dau ymgeisydd y gellid eu penodi.

## Manyleb y swydd a'r person

**14.** Rhoddodd Llywodraeth Cymru amlinelliad o rôl y Cadeirydd yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr. Roedd hyn yn cynnwys hysbysiad y gallai penodiad i rôl y Cadeirydd, yn ôl disgresiwn y Pwyllgor, fod yn destun gwrandawiad cyn penodi.

**15.** Bydd y Cadeirydd yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol am berfformiad y Bwrdd a'i lywodraethu effeithiol, am gynnal gwerthoedd y GIG ac am ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid. Mae cyfrifoldebau manwl y Cadeirydd i'w gweld yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr.

[1] Datganiad Ysgrifenedig: Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: dewis ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog, 13 Chwefror 2026

# 4. Yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru

## Cefndir

**16.** Ar hyn o bryd, Andrew Morgan, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, yw Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae wedi cyflawni nifer o rolau cyhoeddus uchel eu proffil mewn llywodraeth leol.

**17.** Yn yr holiadur cyn penodi, mae'n datgan:

> *I have spent my whole working life in public service, starting as an apprentice at Cynon Valley Borough Council before progressing into management at Rhondda Cynon Taf Council. I then became an elected Member in 2004 and a Member of the Executive in 2008. I have led the Council since 2014.*
>
> *As a Council Leader and as Leader of the WLGA, I have worked closely with health boards, Regional Partnership Boards and national bodies to strengthen integration between health, social care, local government and the third sector. This experience has given me a detailed understanding of the pressures facing the NHS and the importance of long-term planning and prevention. I am motivated by the opportunity to bring that experience to a leadership role where I can work collectively with others to achieve the right outcomes.*
>
> *I have always fostered a team approach, recognising the strengths of others and providing leadership or support as needed to secure the best results.*
>
> *Aneurin Bevan University Health Board serves a large and diverse population, including communities with significant health inequalities and socioeconomic challenges. I strongly believe there is a real opportunity for the Health Board and wider public services to make a long-term step change, particularly by strengthening primary care and focusing on preventative interventions.*

## Ein barn ni

**18.** Yn unol â'r canllawiau ar wrandawiadau cyn penodi a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd, ein rôl ni yw nodi ein barn ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

**19.** Yn ystod y gwrandawiad cyn penodi, cawsom drafodaeth eang â'r ymgeisydd a ffefrir, Andrew Morgan. Roedd y drafodaeth hon yn cwmpasu ei brofiad helaeth o weithio mewn llywodraeth leol a'i weledigaeth ar gyfer dyfodol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

**20.** Dywedodd Mr Morgan nad oedd yn dal unrhyw benodiad arall y byddai'n arwain at wrthdaro buddiannau yn ei farn ef, neu y gellid ystyried iddo arwain at sefyllfa o'r fath. Cadarnhaodd y byddai'n rhoi'r gorau i'w rôl fel arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf pe bai'n cael ei benodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. At hynny, cadarnhaodd ei fod wedi cael cais i gadw ei rôl fel arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am gyfnod o bedair i chwe wythnos ar ôl iddo gael ei benodi i ymdrin â threfniadau pontio yn dilyn etholiad y Senedd ym mis Mai.

**21.** Gwnaethom drafod yr angen am lywodraethu cryf a rheolaeth ariannol dda, o ystyried bod y Bwrdd ar hyn o bryd mewn ymyrraeth dargedig ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio, ac ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â gofal brys a gofal mewn argyfwng yn Ysbyty Prifysgol y Faenor. Dywedodd Mr Morgan wrthym fod ganddo brofiad sylweddol o graffu ar gyllidebau a'u pennu, a thynnodd sylw at bwysigrwydd cynllunio ar gyfer y tymor hwy:

> *"You don't just plan for your budget, but also your savings and efficiencies in the current year, and you do it on a rolling three-year basis. So, I think providing that level of challenge, but also support around financial planning I think is key, and just making sure that we are looking at the longer term in terms of those pressures."*

**22.** Nododd recriwtio fel maes arall y byddai'n elwa o gynllunio ar gyfer y tymor hwy, yn ei farn ef, gan ychwanegu y byddai'n mynd ati i geisio lleihau'r ddibyniaeth a'r gwariant ar staff asiantaeth yn benodol.

**23.** Gofynnwyd i Mr Morgan sut y byddai'n cydbwyso blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd o fewn y bwrdd iechyd. Dywedodd wrthym, yn gyntaf, y byddai am ddeall yr ystod o faterion i'w blaenoriaethu, tra hefyd yn ceisio ymdrin â sefyllfa ariannol y bwrdd iechyd. O ran cydbwyso blaenoriaethau strategol Llywodraeth

Cymru a’r bwrdd iechyd, dywedodd y byddai’n disgwyl i’r bwrdd wneud penderfyniadau ynghylch sut i’w blaenoriaethu yn seiliedig ar adnoddau ariannol ac adnoddau o ran pobl.

**24.** Mewn perthynas ag Ysbyty Prifysgol y Faenor, dywedodd Mr Morgan y byddai am ddeall y problemau a arweiniodd at roi’r ysbyty o dan ymyrraeth dargedig cyn edrych ar unrhyw newidiadau posibl. Ychwanegodd fod llawer o waith da yn cael ei wneud yn y Faenor, yn ei farn ef, ond bod y gwaith hwn yn digwydd yng nghysgod nifer fach o feysydd eraill.

**25.** Wedyn, gwnaethom ofyn i Mr Morgan am yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd yn fwy cyffredinol. Dywedodd mai'r flaenoriaeth fwyaf, yn ei farn ef, yn enwedig o ran y targedau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gosod, oedd rhestrau aros a'u heffaith ar bobl:

> *“All too often, we see people who basically should be living healthy and fulfilling lives, and in some cases should be in work, who are at present not able to do that because they are on the waiting lists. I think that is certainly an area that needs to be one of the biggest priorities in terms of addressing that.”*

**26.** Aeth ymlaen i ddweud bod sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy yn hanfodol, yn enwedig gan na fyddai byth ddigon o gyllid ar gael o fewn y gwasanaeth iechyd i wneud popeth y byddai'n hoffi ei wneud, yn enwedig wedi’i gydbwyso yn erbyn holl feysydd eraill y sector cyhoeddus.

**27.** O ran sut y byddai'n hyrwyddo cydweithio ar draws ardal y bwrdd iechyd, tynnodd Mr Morgan sylw at waith yr oedd wedi bod yn rhan ohono yng Nghwm Taf Morgannwg i ymdrin â rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn hwyr drwy ddod ag Arweinydd a Phrif Weithredwyr yr awdurdodau lleol ynghyd â Chadeirydd a Phrif Weithredwr y bwrdd iechyd:

> *“so there's political buy-in and there's officer buy-in from local authorities with the chair and chief exec of the health board. We have regular fortnightly meetings, but also below that, we've been able to set up a set officer group between the three local authorities and it's about buy-in and making sure that this isn't passing a problem over, but it's getting everybody to buy in to the shared problem and then identifying what is the best intervention.”*

**28.** Dywedodd fod cael ymdeimlad o bwrpas a dealltwriaeth gyffredin, yn ogystal â chael perthynas sy’n seiliedig ar ymddiriedaeth, yn galluogi pob partner i gydweithio ac, yn y pen draw, i ganolbwyntio ar y claf.

**29.** Gofynnwyd i Mr Morgan sut y byddai'n meithrin perthnasoedd gwaith â'r Bwrdd, y Prif Weithredwr a staff y bwrdd iechyd. Dywedodd ei fod yn credu bod cael y diwylliant cywir yn y sefydliad yn allweddol, a bod modd gwneud hynny drwy fod yn hawdd mynd ato, yn agored ac yn dryloyw. O ran y tîm gweithredol, nododd y byddai'n bwysig nodi disgwyliadau o'r cychwyn cyntaf, a sefydlu perthynas adeiladol a fyddai'n ei alluogi i herio aelodau’r tîm a chraffu arnynt, tra hefyd yn eu cefnogi. O ran staff, dywedodd fod angen iddynt deimlo eu bod wedi’u grymuso a bod eu barn, pan ofynnir amdani, yn cael ei hystyried. O ran cydweithio rhanbarthol, tynnodd Mr Morgan sylw at y gwaith yr oedd wedi bod yn rhan ohono mewn perthynas â datblygu Parc Iechyd Llantrisant, a dywedodd y byddai am ddod â'r wybodaeth a'r profiad hynny i’w rôl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

**30.** Dywedodd Mr Morgan ei fod o’r farn bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhan sylfaenol o waith y bwrdd yn ogystal â'r cadeirydd, yn enwedig fel ffordd o ennyn hyder y cyhoedd yn y bwrdd iechyd. Ychwanegodd fod meysydd yn y GIG a oedd yn wirioneddol yn cyflawni dros gleifion, ond bod y gwaith hwnnw’n digwydd yng nghysgod y meysydd hynny nad oeddent yn cyflawni ac a oedd yn cael effaith negyddol ar gleifion. Ymatebodd fel a ganlyn:

> *“I think it's important to also speak up about the good areas and to have that engagement with the public, because I think it's also important for staff as well, for staff morale. So, where there is good work being delivered, I think that we should talk about that as well, but also have those open and frank conversations with the public about areas that are in difficulty and how we address those, going forward.”*

**31.** Hefyd, tynnodd sylw at bwysigrwydd defnyddio gwybodaeth a geir yn uniongyrchol gan y cyhoedd a staff, drwy ymgynghoriadau ac arolygon, i helpu i lunio gwasanaethau.

**32.** O ran amrywiaeth, cydraddoldeb a'r Gymraeg, dywedodd Mr Morgan fod yn rhaid iddynt gael eu hymgorffori ym mholisïau a strategaethau'r sefydliad, yn hytrach na chael eu hystyried yn bethau atodol:

> *"I think it's really important that that is in there from the outset so that they're not just seen as being a tick box. In particular, for the Welsh language, in terms of the Welsh language standards, that's the minimum we should be doing. So, I think that having buy-in and having that from the chair and from the top of the health board, having that embedded and that view is important to help to drive the organisation to look at those areas."*

**33.** Tynnodd sylw at y dull o ymdrin â chydraddoldeb a fabwysiadwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys defnyddio grwpiau cymorth staff i roi llais i weithwyr a sicrhau eu bod yn teimlo eu bod nhw wedi'u grymuso, a dywedodd y byddai'n ceisio efelychu'r dull gweithredu hwn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

**34.** Os tynnir sylw at broblemau, ychwanegodd ei bod yn bwysig creu diwylliant lle gellir ymdrin â'r problemau hynny, a hynny'n gynnar ac mewn ffordd ofalus, i fynd at wraidd y broblem cyn bod yn rhaid ei huwchgyfeirio.

**35.** Yn olaf, gwnaethom ofyn i Mr Morgan beth fyddai ei flaenoriaethau uniongyrchol ar gyfer y bwrdd iechyd. Ymatebodd fel a ganlyn:

> *"I think, in the first year, clearly, the areas of escalation and addressing them and seeing either progress being made in terms of de-escalation, or certainly being well on the path to de-escalation in terms of the strategies being implemented by the health board, would be the immediate priority, certainly."*

**36.** O ran blaenoriaethau yn y tymor hwy, dywedodd ei fod yn gobeithio, erbyn diwedd ei dymor o bedair blynedd, y byddai gofal cleifion a llwybrau gofal mewn sefyllfa well o ran galluogi pobl i gael gofal o ansawdd uchel ar yr amser cywir, a hynny mewn lleoliad sy'n diwallu eu hanghenion. Soniodd hefyd am yr angen i ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd a phwysigrwydd ffordd iach ac egnïol o fyw:

> *"Because in my own area, in Cwm Taf Morgannwg, but certainly also in Aneurin Bevan, the health inequality in terms of healthy lifestyles is quite significant. From one county to another, you can have as much as 10 or 12 years difference in a healthy life expectancy. So, addressing that through a whole range, a whole suite, of interventions is important."*

**37.** Yn seiliedig ar ei berfformiad a'i ymatebion i gwestiynau yn ystod y gwrandawiad cyn penodi, nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai Andrew Morgan, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, gael ei benodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Dymunwn yn dda iddo ar gyfer y dyfodol yn y rôl hon.